


DATBLYGWR DYSGU DIGIDOL

Adran Hyfforddiant a Datblygu, Y Rhyl
(gyda rhywfaint o waith ystwyth)
Parhaol, 37 awr yr wythnos
Gradd 6 - £31,537 i £34,434 y flwyddyn



Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos



Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am Ddatblygwr Dysgu Digidol medrus a llawn cymhelliant i gefnogi'r gwaith o ddarparu atebion dysgu o ansawdd uchel, hygyrch ac arloesol ar draws y Gwasanaeth. Byddwch yn rhan o sefydliad sydd wedi ymrwymo i amddiffyn cymunedau a buddsoddi yn ei bobl. Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar sut mae dysgu yn cael ei gyflwyno ar draws y Gwasanaeth a chyfrannu at newid sefydliadol ystyrlon.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rôl allweddol wrth foderneiddio sut mae dysgu yn cael ei ddylunio, ei gyflwyno a'i werthuso. Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu cynnwys dysgu digidol diddorol, rheoli systemau dysgu, a gweithio'n agos gydag arbenigwyr pwnc i sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion gweithredol a sefydliadol.

Mae'r rôl yn cynnig cyfuniad o greadigrwydd, arbenigedd technegol, a chydweithio, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r gweithlu, cydymffurfiaeth sefydliadol, a gwelliant parhaus.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos, gyda thystiolaeth, eu bod yn bodloni 'r meini prawf hanfodol a amlinellir yn y disgrifiad swydd a manyleb person.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recrwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Sylwch fod y swydd hon yn destun gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys Gwiriad DBS, prawf Cyffuriau ac Alcohol a geir daon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi'i wario neu heb ei wario) ar y DBS, bydd dull seiliedig ar risg ar reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflen gais yw 12.00 hanner dydd,
07/09/2026 a disgwylir i'r cyfweiliadau ddigwydd wythnos sy'n
dechrau 21/09/2026**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.